Yn etholiad 2013 addewid ymgeiswyr Plaid Cymru i bobl Môn oedd eu bod am 'Adfer Enw Da Môn'. Mae Cynghorwyr Plaid Cymru a'r Cynghorwyr Annibynnol wedi cydweithio yn effeithiol dros y pedair blynedd diwethaf ac am adeiladu ar y llwyddiant yma.

Mae aeddfedrwydd gwleidyddol wedi datblygu dros y 4 mlynedd diwethaf ac mi fydd yn rhoi sylfaen cadarn i Gyngor Ynys Môn gychwyn ar y cyfnod nesaf. Mae'r aelodau sy'n dod at ei gilydd wedi profi bod y gallu ganddynt i roi sefydlogrwydd gwleidyddol sydd yn hanfodol er mwyn llywodraethu yn effeithiol.

Mae gan datblygiad Wylfa Newydd agweddau positif i'n hieuenctid a dyfodol teuluoedd Ynys Môn, gyda hyd at 800 o swyddi parhaol. Ond nid ydym yn derbyn y datblygiad hwn yn ddiamod. Rydym am amddiffyn buddiannau Ynys Môn a sicrhau bod unrhyw sgil effeithiau ar ein cymunedau o ganlyniad i'r datblygiad yn cael eu lliniaru gan y datblygwyr. Mae cymunedau cryf a llewyrchus yn nôd gennym.

Rydym yn gwynebu toriadau sylweddol i gyllideb yr awdurdod ac mae cynnal gwasanaethau am fod yn heriol. Byddwn yn gyrru'r agenda trawsnewid yn ei flaen er mwyn amddiffyn ein gwasanaethau rheng flaen.

Addysg

Mae'r glymblaid sydd am arwain y Cyngor yn llwyr gredu bod pob plentyn a pherson ifanc yn Ynys Môn yn haeddu'r cyfle gorau i gyrraedd eu potensial llawn -

* Rydym eisiau parhau i fuddsoddi mewn ysgolion newydd er mwyn sicrhau'r cyfleusterau gorau i addysgu ein plant.

* Rydym am gefnogi ein Hathrawon a'n Prifathrawon er mwyn sicrhau'r safonau gorau i blant Môn.

* Rydym eisiau cydweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod ein pobl ifanc yn meithrin sgiliau gwaith hanfodol.

Gofal

Mae Gofal Cymdeithasol o dan straen parhaol yn ein cymunedau. Rydym o'r farn bod angen cydweithio a chryfhau agweddau o'r gwaith er mwyn ymateb i'r galw -

* Cydweithio efo'r Gwasanaeth Iechyd mewn ffyrdd adeiladol i sicrhau bod cyfle gan bob unigolyn i fyw bywyd annibynnol yn eu cymunedau.

* Cryfhau gwasanaeth cefnogaeth i deuluoedd sydd eu hangen.

* Cydweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau cartrefi addas i'n hoedolion hŷn.

* Sicrhau cefnogaeth i ofalwyr sydd yn gofalu am deulu neu ffrindiau

Tai

Mae'r grŵp yn credu bod gan bawb yr hawl i gartref addas -

* Parhau i ymateb i'r angen am dai, trwy adeiladu tai cymdeithasol ein hunain a chynyddu cyflenwad cartrefi

fforddiadwy i'n pobl ifanc.

* Sicrhau bod tai gwag yn dod yn ôl i ddefnydd er mwyn ymateb i'r angen am dai.

* Sicrhau cefnogaeth i brynwyr cyntaf drwy ddefnyddio premiwm treth cyngor.

Economi/Gwaith

Mae economi a gwaith yn hanfodol er mwyn cadw ein hieuenctid yn Ynys Môn. Rydym yn credu y gallwn wneud hynny drwy -

* Sicrhau budd i fusnesau lleol yn sgìl unrhyw brosiect mawr.

* Cefnogi busnesau lleol i allu ceisio am gytundebau'r Cyngor.

* Hyrwyddo a chreu cyfleoedd i bobl ifanc gyda phrentisiaethau.

Gwarchod yr amgylchedd

Mae Ynys Môn yn unigryw oherwydd yr amgylchedd naturiol sydd o'i chwmpas. Rydym am -

* Parhau i frwydro yn erbyn y peilonau.

* Amddiffyn amgylchedd naturiol Môn, sydd mor allweddol i'r sector dwristiaeth.

* Sicrhau ein bod yn cyrraedd targedau ailgylchu.